# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 29 Mawrth 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth fyddai cyfanswm y gost pe bai'r Cynulliad yn symud o D Crucywel. (WAQ4669)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau a gynhaliwyd ag arweinwyr Awdurdodau lleol cyn ei gyhoeddiad i greu moratoriwm ar Adeilad newydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd. (WAQ4670)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw union ofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn unrhyw gartref parhaol newydd o ran swyddfeydd, mannau cyfarfod, mannau arddangos a chyfleusterau eraill. (WAQ4671)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal ag Awdurdodau Lleol Cymru yngln â chartref parhaol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ4672)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff adolygu'r holl ddewisiadau ar gyfer cartref i'r Cynulliad a ystyriwyd yn flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1998 gan gynnwys y rhai y tu allan i Gaerdydd fel rhan o'i foratoriwm ar yr adeilad newydd. (WAQ4673)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw costau adleoli Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Neuadd y Ddinas yn Abertawe. (WAQ4674)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa mor hir fydd cyfnod monitro a gwerthuso'r lefel AS newydd. (WAQ4651)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o fyfyrwyr ôl 16 oed sy'n astudio'r canlynol, a beth yw cyfran y myfyrwyr hynny:

- Safon Uwch
- cyrsiau BTEC
- cymwysterau NVQ/GNVQ
- Bagloriaeth Ryngwladol. (WAQ4652)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o fyfyrwyr ôl 16 oed sy'n astudio yn y mannau canlynol, a beth yw cyfran y myfyrwyr hynny:

- ysgolion
- colegau (WAQ4653)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i astudio am gymwysterau ôl 16, a beth yw cyfran y myfyrwyr hynny o'r grp oed perthnasol. (WAQ4654)

**Elin Jones (Ceredigion);** I wneud datganiad ar yr ymchwiliad mewn i Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru. W (WAQ4656)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o fyfyrwyr sy'n cwblhau cymwysterau Cyfnod Allweddol IV yng Nghymru. (WAQ4655)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfartaledd cost gwerslyfrau ysgolion cynradd trwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ4657)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfartaledd cost gwerslyfrau ysgolion cynradd trwy gyfrwng y Saesneg. (WAQ4658)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfartaledd gwariant fesul pen i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd. (WAQ4659)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfartaledd gwariant fesul pen i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Saesneg ar lefel gynradd ac uwchradd. (WAQ4660)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r amrywiaethau galw ar y lefel isaf bosibl mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg dros y deng mlynedd diwethaf. (WAQ4661)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r amrywiadau galw disgwyliedig ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg dros y deng mlynedd nesaf, fesul blwyddyn. (WAQ4662)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i gynyddu darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. (WAQ4663)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau a gymerir ganddi i fodloni galwadau Arolwg Ysgol Gynradd Bryn y Môr, Abertawe, dan Adran 10 Deddf Arolygu Ysgolion 1996, gan gyfeirio'n benodol at y pwynt bwled olaf on un dan Adran 18, Pwyntiau Allweddol i Weithredu Arnynt. (WAQ4664)

**Jane Davidson (Pontypridd);** Pa gefnogaeth y gall ei rhoi i ddarpariaeth meithrinfeydd sy'n defnyddio cyfleusterau cymunedol fel neuaddau pentref. (WAQ4675)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i gwrdd â Fforwm Gofal Cymru. (WAQ4665)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gyfarwyddyd fyddai'n ei roi i gyrff gwirfoddol, yn benodol, sy'n wynebu oedi hir cyn derbyn taliadau ERDF. (WAQ4666)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflymu proses gwneud ceisiadau ERDF i gyrff yng Nghymru. (WAQ4667)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfartaledd yr oedi a wynebir gan gyrff yng Nghymru rhwng cyflwyno ceisiadau ERDF a derbyn eu taliadau. (WAQ4668)